# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0318(FPS) a gyhoeddwyd gan Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai, Mai 2008

**At Bethan Jenkins:**

Yn ystod Cwestiynau 14 Mai, gofynnoch i Andrew Davies AC, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, a oedd wedi ystyried effaith yr argyfwng credyd ar allu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig newydd i fenthyg arian o ganlyniad i drosglwyddo stoc ar raddfa fawr. Gofynnodd Andrew Davies i mi ateb am fod eich cwestiwn yn berthnasol i'm portffolio.

Mae pecynnau cyllido hirdymor eisoes ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) sydd wedi cael tai o ganlyniad i drosglwyddo stoc. Bydd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig 'Cysgodol' hynny a benodwyd o ganlyniad i bleidleisiau cadarnhaol, ac sy'n gweithio tuag at drosglwyddo, eisoes wedi dechrau trafod â benthycwyr arfaethedig.

Bydd Awdurdodau Lleol sydd wedi penderfynu cynnal pleidlais ymysg tenantiaid, yn comisiynu cyngor arbenigol i sicrhau bod modd cyllido eu Cynlluniau Busnes cyn cynnal y bleidlais.

Yn ddiweddar, bûm yn cyfarfod â'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi i drafod sefyllfa bresennol y farchnad, ac i gael sicrwydd bod cyllid ar gael o hyd i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0324(FPS) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, ar 28 Mai 2008

**At Alun Ffred Jones:**

Yn y cyfarfod llawn ar 14 Mai addewais ysgrifennu atoch ynghylch lefelau cymharol arian cyfalaf ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Dyma'r ffigurau DEL cyfalaf ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig fel y'u cofnodir yn y Dadansoddiad Ystadegol o Wariant Cyhoeddus 2008.

Gwariant cyfalaf mewn miliynau

| Gwlad | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 1,004 | 985 | 1,008 | 1,208 | 1,319 | 1,527 | 1,568 | 1,678 | 1,841 |
| Yr Alban | 1,906 | 1,697 | 2,171 | 2,390 | 3,035 | 3,542 | 3,147 | 3,342 | 3,641 |
| Gogledd Iwerddon | 716 | 668 | 838 | 894 | 872 | 1,024 | 1,066 | 1,130 | 1,228 |

Gwariant DEL cyfalaf y pen mewn punnoedd

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 344 | 336 | 342 | 409 | 445 | 515 | 529 | 566 | 621 |
| Yr Alban | 377 | 336 | 427 | 469 | 593 | 692 | 615 | 653 | 712 |
| Gogledd Iwerddon | 422 | 392 | 490 | 518 | 501 | 588 | 612 | 649 | 705 |

Twf mewn DEL cyfalaf os bydd lefelau 2002-03 = 100

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 100 | 98.11 | 100.44 | 120.28 | 129.47 | 145.24 | 147.93 | 154.94 | 164.66 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Alban | 100 | 89.03 | 116.97 | 127.05 | 154.04 | 170.75 | 159.59 | 165.79 | 174.74 |
| Gogledd Iwerddon | 100 | 93.30 | 118.75 | 125.43 | 122.97 | 140.40 | 144.50 | 150.50 | 159.18 |

Mae'r ffigurau o 2002-03 i 2006-07 yn dangos yr alldro gwirioneddol, ond gwariant cynlluniedig yw'r ffigurau o 2007-08 i 2010-11. Mae gweinyddiaethau datganoledig yn cael dewis dwyn refeniw a chyfalaf ymlaen i flynyddoedd yn y dyfodol (Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn), a gall hyn achosi proffil gwariant anwastad mewn rhai blynyddoedd.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0391(CEL) a gyhoeddwyd gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**At Alun Ffred Jones:**

Yn ystod y Cwestiynau Llafar ar y 14 Mai, cytunais i ysgrifennu atoch am y niferoedd o fyfyrwyr sydd yn gwneud Cymhwyster Bagloriaeth Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae CBAC, sef y corff dyfarnu ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn casglu gwybodaeth am y niferoedd o fyfyrwyr sydd wedi cofrestru am y cymhwyster. Cofrestrwyd y niferoedd canlynol o fyfyrwyr gan eu canolfannau fel rhai sydd yn astudio ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg ym mis Hydref 2007.

| Blwyddyn Academaidd 2007/08 | Nifer o fyfyrwyr a gofrestrodd ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru | Cofrestrwyd gyda CBAC fel rhai sydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg |
|---|---|---|
| Safon Uwch | 7,436 | 800 |
| Lefel Ganolradd | 3,944 | 284 |
| Lefel Sylfaen | 1,858 | 92 |
| CYFANSWM | 13,238 | 1,176 |

Nid yw CBAC yn cywain gwybodaeth am ddysgwyr sydd yn astudio'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'n gymhwyster hollol ddwyieithog ac fel y gwelwch oddi wrth y tabl isod, mae cynrychiolaeth dda o ganolfannau cyfrwng y Gymraeg a dwyieithog yn gwneud Bagloriaeth Cymru. O fis Medi eleni ymlaen bydd 100 o ganolfannau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ôl-16. O'r rheini mae'r canlynol naill ai'n rhai Cymraeg neu ddwyieithog.

**Canolfannau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru Cymraeg a Dwyieithog (o Fedi 2008 ymlaen)**

| **Cyfrwng y Gymraeg** | **Dwyieithog** |
|---|---|
| Ysgol y Creuddyn* | Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt |
| Ysgol Tryfan* | Ysgol Uwchradd Caereinon |
| Ysgol Glan Clwyd | Hyfforddiant Cambrian |
| Ysgol Gyfun Bro Morgannwg | Hyfforddiant Cyfl. Dinas Abertawe |
| Ysgol Gyfun Gŵyr | Coleg Meirion Dwyfor |
| Ysgol Morgan Llwyd | Coleg Menai |
| Ysgol Plasmawr | Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch* |
| Ysgol Preseli | Ysgol Gyfun Llangefni* |
| Ysgol Y Strade, Llanelli | Ysgol David Hughes* |
| | Ysgol Uwchradd Bodedern* |
| | Ysgol Dyffryn Nantlle* |

| | |
|---|---|
| | Ysgol Syr Hugh Owen*<br>Ysgol Dyffryn Ogwen*<br>Ysgol Uwchradd Llanidloes<br>Ysgol Brynhyfryd<br>Ysgol Penweddig<br>Ysgol Tre-gib |

* - Consortiwm Cynnal

**Gwybodaeth ychwanegol at y datganiad ar Grant Ad-dalu Cronfa Ymddiriedolaeth Plant a gyhoeddwyd gan Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**

**At William Graham:**

Yn dilyn fy natganiad llafar yn ystod Cyfarfod Llawn 14 Mai, cytunais i ysgrifennu atoch er mwyn cadarnhau manylion y taliadau ychwanegol o gronfeydd ymddiriedolaeth plant i blant sy'n derbyn gofal.

I fod yn gymwys i gael taliad ychwanegol, gallaf gadarnhau bod yn rhaid i blentyn fod wedi treulio blwyddyn lawn mewn gofal ers 1 Ebrill 2007. Bydd £200 ychwanegol yn parhau i gael ei dalu i'w gyfrif cronfa ymddiriedolaeth plant am bob blwyddyn lawn y bydd yn treulio mewn gofal wedi hynny.

Mae'r taliadau ychwanegol wedi'u hanelu at blant sy'n debygol o dreulio cyfnodau sylweddol yng ngofal awdurdodau lleol. Wrth gwrs, gall awdurdodau lleol gyfrannu at gyfrifon plant sy'n treulio cyfnodau llai mewn gofal, a byddem yn eu hannog i wneud hynny.

Yn ogystal, gwnaethoch gyfeirio at blant y mae cyfrif cronfa ymddiriedolaeth plant heb ei agor ar eu cyfer hyd yn hyn, gan ofyn i mi ystyried plant sy'n derbyn gofal yn benodol yn y cyswllt hwn. Mae gan y Swyddfa Credyd Treth Plant drefniadau arbennig i sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gyfrif cronfa ymddiriedolaeth plant, ac mae'n cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol i gyflawni hyn. Lle bo'n ofynnol, bydd Swyddfa'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant yn trefnu i Gyfreithiwr Swyddogol agor Cyfrif ar ran y plentyn.